Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Asesu Risg a Sicrwydd — Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3263A2022

Paratowyd y ddogfen yn rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Yr hyn a adolygwyd gennym a pham | 4 |
| Sefyllfa ariannol | 5 |
| Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | 8 |
| Cynlluniau i leihau carbon | 8 |
| Strategaeth Ddigidol | 11 |

# Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Gwnaethom gynnal y prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fo angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau wrth i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth iddo ddefnyddio adnoddau. Bu'r prosiect hwn hefyd o gymorth i ni asesu i ba raddau y mae'r corff yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd yr ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg manylach ynddynt. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn ystod hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein gwaith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Chwefror 2022.

3 Gwnaethom ganolbwyntio ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Sefyllfa ariannol
- Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Trefniadau hunanasesu
- Cynllun lleihau carbon

4 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith strategaeth ddigidol, a wnaethom yn ystod 2021–22.

5 Mae'r prosiect Asesu Risg a Sicrwydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn. Gwnaethom gynnal gweithdy gydag Arweinydd ac Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ym mis Mawrth 2022 er mwyn casglu eu safbwyntiau ar y risgiau archwilio allweddol mewn cysylltiad â'r Cyngor ac i lywio ein gwaith blaengynllunio.

# Sefyllfa ariannol

## Mae'r Cyngor bellach yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, ond mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r rhain

6 Rydym wedi bod yn adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys ystyried sefyllfa arian wrth gefn y Cyngor, cyflawni arbedion a pherfformiad o'u cymharu â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn.

7 Gwnaethom gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol hefyd ym mis Chwefror 2022. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

### Strategaeth ariannol

8 Mae'r Cyngor yn profi pwysau ariannol sylweddol oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ffyddiog am sefyllfa ariannol y Cyngor a'i drefniadau i'w helpu i fynd i'r afael â'r pwysau hyn.

9 Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig yn ddiweddar. Ar sail y setliadau dangosol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r cyngor bellach yn rhagweld bwlch o £77.79 miliwn yn y gyllideb rhwng 2023–24 a 2025–26. Mae hyn yn cynnwys £36.47 miliwn ar gyfer 2023–24, £21.7 miliwn ar gyfer 2024–25 a £19.5 miliwn ar gyfer 2025–26. Mae'r cynllun tymor canolig wedi'i ddiweddaru yn darparu sefyllfa llawer gwaeth na'r hyn a ragolygwyd flwyddyn yn ôl. Bryd hynny, roedd y Cyngor yn rhagweld uchafswm bwlch yn y gyllideb a fyddo ychydig o dan £52 miliwn dros y tair blynedd. Roedd hyn ar sail cynnydd blynyddol o 2% mewn setliad blynyddol. Mae'r cynnydd ym mwlch y gyllideb a ragwelir yn pwysleisio'r heriau sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu oherwydd yr hinsawdd economaidd presennol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o bwysau chwyddiannol, gan gynnwys costau ynni cynyddol. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd y rhain yn costio £63.6 miliwn ychwanegol iddo dros y tair blynedd nesaf.

10 Mae setliadau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ar gyfer 2023–24 a 2024–25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd cyllidol dros y tymor canolig. Bydd y gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar amrywiaeth o ragdybiaethau. Mae'r dirwedd economaidd-gymdeithasol sy'n newid ac ansicrwydd economaidd yn golygu y bydd cynllunio ar gyfer cadernid ariannol a rowndiau cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i'r Cyngor.

11 Mae'r Cyngor wedi nodi meysydd eang i'w helpu i fynd i'r afael â'i fwlch yn y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys nodi effeithlonrwydd pellach, digideiddio, trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol, ac adolygu ei asedau. Diogelu gwasanaethau rheng flaen yw strategaeth y Cyngor o hyd. Hyd yn hyn, mae wedi gallu buddsoddi mewn meysydd sy'n gysylltiedig â'i flaenoriaethau corfforaethol. Ond mae Cynllun Ariannol

Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru y Cyngor yn ei gwneud yn glir efallai na fydd y strategaeth hon yn gynaliadwy os yw am fynd i'r afael â'r bwlch sylweddol yn y gyllideb a ragwelir. Mae archwilio gostyngiadau yn y gwasanaethau bellach yn rhan o'i raglen i fynd i'r afael â'i heriau ariannol. Nid yw'r Cyngor wedi nodi'n fanwl eto sut y bydd yn talu am y bwlch cynyddol yn y gyllideb. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn parhau i fod yn ffyddiog bod gan y Cyngor sefyllfa ariannol gadarn a threfniadau i'w helpu i baratoi am y pwysau mae'n eu hwynebu. Mae amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael iddo o hyd i reoli ei bwysau cyllidebol.

## Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

12 Rydym wedi parhau heb ddod o hyd i unrhyw bryderon mawr yn y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Fel y dangosir yn **Arddangos 1** isod, cynyddodd y Cyngor ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn sylweddol yn 2020–21 a 2021–22. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cyllid grant ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu tuag diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n parhau i fod â sefyllfa cronfeydd wrth gefn sy'n iach. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o gadernid i'r Cyngor i'w helpu i reoli ei bwysau cyllidebol.

### Arddangosyn 1: nifer y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o'u cymharu â'r gyllideb flynyddol

Dengys yr arddangosyn hwn faint o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021–22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

| | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 (sefyllfa ddrafft, yn amodol ar archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost net y gwasanaethau mewn £ miliynau[1] | 472.1 | 477.1 | 491.5 | 505.6 | 532.1 | 551.5 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy mewn £ miliynau[2] | 138.9 | 143.5 | 119.5 | 119.9 | 171.3 | 229.2 |

[1] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw'r gost net a godwyd ar y gronfa gyffredinol am y gwasanaethau o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, namyn cost unrhyw wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

[2] Trwy gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â'r cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd nad yw cynghorau'n cael eu hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall.

| | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 (sefyllfa ddrafft, yn amodol ar archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net y gwasanaethau | 29.4% | 30.1% | 24.3% | 23.7% | 32.2% | 41.5 |
| Cymhariaeth â chynghorau eraill Cymru | 3/22 | 3/22 | 6/22 | 6/22 | 7/22 | Nid yw ar gael eto |

13 Defnyddiodd y Cyngor beth o falans cyffredinol ei gronfeydd wrth gefn i'w helpu i reoli costau Storm Dennis yn ystod gwanwyn 2020. Yn 2021–22, mae'r Cyngor wedi gallu cynyddu balans cyffredinol ei gronfeydd wrth gefn o £8.5 miliwn i £10.2 miliwn. Mae hyn bellach yn unol â'r lefel isaf a argymhellwyd gan swyddog Adran 151 y Cyngor.

14 Ar gyfer 2022–23, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio £0.963 miliwn o'i gronfa Trawsnewid Gwasanaethau i ariannu'r bwlch yn y gyllideb. Byddai hyn yn gadael £3.644 miliwn yn y gronfa Trawsnewid Gwasanaethau. Cyfathrebwyd hyn yn glir i'r aelodau yn adroddiad y gyllideb refeniw ym mis Mawrth.

## Cyflawni arbedion

15 Mae dull y Cyngor o nodi a chyflawni arbedion yn gynnar ac o gael gwared ar y rhain o gyllidebau sylfaenol wedi parhau i fod yn effeithiol. Yn 2021–22, gwnaeth y Cyngor nodi a chyflawni £4.6 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd. Yn rhan o'i strategaeth cyllideb 2022–23, mae wedi nodi a thynnu £4.9 miliwn o'i ofynion cyllidebol sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru yn pwysleisio y bydd y dull hwn yn gynyddol heriol heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Gan ei fod bellach yn wynebu heriau ariannol sylweddol, mae'n gorfod dod o hyd i effeithlonrwydd ychwanegol yn ystod y flwyddyn i'w helpu i fynd i'r afael â'r rhain.

## Y perfformiad o'i gymharu â'r gyllideb

16 Rydym wedi parhau i ganfod bod gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei wasanaethau yn y gyllideb yn gyffredinol. Ar gyfer 2021–22, mae'r Cyngor yn adrodd gorwariant bach o £213,000 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw. Ond mae hyn ar ôl iddo drosglwyddo dros £65 miliwn i'w gronfeydd wrth gefn. Y rheswm pennaf am hyn yw grantiau ychwanegol a chyllid a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol. Talodd Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru am y rhan fwyaf o'r £30 miliwn o gostau ychwanegol a cholledion incwm a gafodd y Cyngor yn ystod 2021–22 oherwydd y pandemig.

17 Yn 2021–22, doedd dim gorwariant sylweddol mewn meysydd gwasanaeth unigol.

18 Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2022, mae'r Cyngor yn rhagweld gorwariant o £10.4 miliwn o'i gymharu â'i gyllideb refeniw 2022–23. Mae hyn yn bennaf oherwydd pwysau chwyddiannol ac effaith barhaus y pandemig ar incwm mewn meysydd megis hamdden. Yn y gwasanaethau Cymunedol a Phlant y mae'r rhagolygon gorwariant mwyaf (£7.6 miliwn). Mae hyn oherwydd cynnydd mewn costau a galwadau. Nid yw'r gorwariant o £10.4 miliwn yn cynnwys unrhyw ddyfarniadau cyflog posibl yn ychwanegol at y ffigurau presennol y mae eisoes wedi cyllidebu ar eu cyfer. Gyda nifer fawr o staff, byddai hyn yn cael effaith fawr ar gyllideb y Cyngor. Mae'r Cyngor yn adolygu ei wariant a'i incwm er mwyn nodi ffyrdd o'i helpu i leihau'r gorwariant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ei gronfeydd wrth gefn a neilltuwyd a nodi effeithlonrwydd pellach.

# Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei drefniadau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ond nid yw wedi cytuno ar ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd eto

19 Rydym wedi bod yn monitro cynnydd y Cyngor wrth ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ystod y flwyddyn.

20 Mae'r Cyngor wedi sefydlu ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i aelodaeth yn unol â gofynion y Ddeddf.

21 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau barhau i adolygu perfformiad, ymgynghori, ac adrodd ar berfformiad drwy hunanasesu. Mae'n rhaid i gynghorau lunio a chyhoeddi adroddiad hunanasesu unwaith ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

22 Mae'r Cyngor yn adeiladu ar ei drefniadau hunanwerthuso presennol, gan eu cryfhau, er mwyn bodloni'r gofynion hunanasesu. Mae trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor wedi eu gwreiddio'n dda yn y sefydliad ac fe'u cefnogir gan her gorfforaethol gadarn. Bwriad y Cyngor yw cryfhau ei ddata a'i dystiolaeth i danategu ei hunanasesiad.

23 Nid yw'r Cyngor wedi cytuno ar ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd eto. Disgwylir i'r Cabinet ystyried hyn ym mis Tachwedd.

# Cynlluniau i leihau carbon

## Cyd-destun

24 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 sy'n edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei fodloni. Nododd ein gwaith rwystrau sylweddol cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd er mwyn bodloni'r uchelgais ar y cyd. Canfuom er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau allyriadau carbon, erbyn hyn, mae'n rhaid iddynt gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithrediad a rhoi datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

25 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am weithredu gan gyrff cyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol;
- egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- adnabod eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
- gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau.

26 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio y Cyngor. Yng nghyd-destun ehangach adroddiad Gorffennaf 2022 yr Archwilydd Cyffredinol sy'n galw am gyflymu'r broses ac arweiniad cryfach ledled Cymru o ran lleihau allyriadau carbon y mae'r canfyddiadau hyn.

## Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau i wynebu'r her o gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2030, ond mae'n cydnabod bod angen rhagor o waith i nodi adnoddau i wireddu ei gynlluniau dros y tymor hwy

27 Cytunodd y Cabinet ar strategaeth 'Hinsawdd Ystyriol' y Cyngor ym mis Mehefin 2022. Mae'r strategaeth yn darparu gweledigaeth glir o'r hyn y mae'r Cyngor yn dymuno ei gyflawni erbyn 2030. Mae'n dangos bod y Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y mae ei gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd yn eu cael. Mae'r effeithiau ehangach hyn yn cynnwys sut mae cynlluniau y Cyngor yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Hefyd, sut mae ei strategaeth 'Hinsawdd Ystyriol' yn cysylltu

â'i dair prif flaenoriaeth gorfforaethol sy'n gysylltiedig â Phobl, Lleoedd a Ffyniant, gan eu cefnogi nhw.

28 Mae'r Cyngor yn cynyddu ei wariant cyfalaf a refeniw ar yr agenda datgarboneiddio. Ond mae'n cydnabod nad yw wedi penderfynu ar oblygiadau hir dymor yr adnoddau ar gyfer cyflawni ei gynlluniau datgarboneiddio eto, gan gynnwys ei adnoddau staff. Hefyd, mae bwlch sgiliau sylweddol yn genedlaethol sy'n rhwystr i gyflawni targed 2030. Bwriad y Cyngor yw lliniaru hyn yn rhannol drwy ei raglenni graddedigion a phrentisiaid. Er mwyn bodloni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn gyson â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.

29 Mae'r Cyngor yn deall yr her sylweddol y mae'n ei hwynebu. Mae'n symud ei agenda sero net ymlaen, ac mae amrywiaeth o fentrau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd wedi eu cynllunio neu eisoes ar y gweill. Mae'r Cyngor yn deall y risgiau a'r cyfleoedd a wynebir o'r her o gyflawni statws carbon sero net erbyn 2030. Mae cofrestr risgiau strategol y Cyngor yn cynnwys dwy risg sy'n ymwneud â datgarboneiddio a newid hinsawdd.

30 Mae'r Cyngor yn bwriadu bwrw ymlaen â rhaglen hyfforddi staff ar ôl cyhoeddi ei strategaeth 'Hinsawdd Ystyriol'. Bydd y rhaglen cynefino aelodau yn cynnwys hyfforddiant ar yr agenda ddatgarboneiddio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau yr ôl troed carbon blynyddol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

31 Mae'r Cyngor wedi cyfeirio at enghreifftiau da o'r gwaith partneriaeth presennol mewn cysylltiad â datgarboneiddio ac mae'r Cyngor yn cymryd camau i ddatblygu ei gysylltiadau cymunedol. Cynrychiolir y Cyngor ar y Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol ac ar wahanol grwpiau ar gyfer swyddogion ledled Cymru. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol yn ei swyddogaeth arwain cymunedol ac mae wedi hwyluso deialog gyda thrigolion. Mae hyn yn cynnwys drwy dudalennau gwe Dewch i Siarad RhCT sy'n ceisio safbwyntiau trigolion. Mae'r Cyngor yn bwriadu llunio cynllun ymgysylltu pan fydd y strategaeth yn mynd yn fyw. Mae'n edrych ar wahanol ffyrdd y gall gynnwys trigolion ymhellach, gan gynnwys sicrhau bod safbwyntiau amrywiaeth o'r boblogaeth yn cael eu hystyried.

32 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ar waith i sbarduno ei agenda ddatgarboneiddio. Roedd Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd yr oedd ganddo swyddogaeth ymgynghorol i'r Cabinet, ac roedd wedi bod ar waith ers 2019. Derbyniodd y Grŵp Llywio adroddiadau megis yr wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Ôl Troed Carbon, sy'n mesur a deall ôl troed carbon blynyddol y Cyngor. Ym mis Mai 2022, gwnaeth Is-bwyllgor Cabinet Newid Hinsawdd a chanddo bwerau i wneud penderfyniadau gymryd lle y Grŵp Llywio. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro ei agenda datgarboneiddio drwy ei drefniadau presennol. Mae hyn yn cynnwys drwy'r broses monitro cyllideb a thrwy ei drefniadau rheoli risgiau corfforaethol. Bwriad y Cyngor yw monitro'r strategaeth drwy adroddiadau perfformiad chwarterol y Cyngor i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Mae'r agenda newid hinsawdd a sero net yn rhan o broses hunanwerthuso gwasanaethau a phroses cynllunio cyflawni y Cyngor.

## Argymhelliad

**Arddangosyn 2: argymhelliad**

Mae'r tabl isod yn cynnwys yr argymhellion a nodiwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| Argymhelliad | |
| --- | --- |
| A1 | Er mwyn bodloni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn gyson â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig. |

# Strategaeth Ddigidol

## Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn ei dîm digidol a'i brosesau ac mae wedi adeiladu ar ei strategaeth digidol blaenorol a'r cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig er mwyn datblygu ei strategaeth newydd ac roedd wrthi'n datblygu ei drefniadau i gefnogi'r broses o'i rhoi ar waith

33 Roedd y gwaith hwn yn ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu ei strategaeth ddigidol. Ar ddechrau ein gwaith, roedd y Cyngor wrthi'n datblygu ei ail strategaeth ddigidol. Cytunodd y Cyngor ar ei strategaeth digidol newydd ym mis Mawrth 2022.

34 Roedd ein gwaith yn cynnwys trafodaethau misol gydag uwch-swyddogion y Cyngor, arsylwi ar gyfarfodydd llywodraethu perthnasol, a'r broses o adolygu dogfennau. Gwnaethom ddarparu sylwadau i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau—TGCh a Gwasanaethau Digidol, yn ystod ein gwaith.

35 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi buddsoddi yn ei dîm digidol a'i brosesau a'i fod wedi adeiladu ar ei strategaeth digidol blaenorol a'r cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig er mwyn datblygu ei strategaeth newydd ac roedd wrthi'n datblygu ei drefniadau i gefnogi'r broses o'i rhoi ar waith.

36 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor, yn ei Strategaeth Ddigidol 2022–26 a gymeradwywyd yn ddiweddar, wedi nodi ei weledigaeth ddigidol, ei nodau strategol a'i egwyddorion arweiniol. Mae hyn yn adeiladu ar ei strategaeth digidol blaenorol y cytunodd arni yn 2017. Mae'r strategaeth newydd hefyd yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed yn ystod y pandemig, a gyflymodd

ddatblygiad ei brosesau a'i atebion digidol. Mae hefyd yn defnyddio'r safonau digidol cenedlaethol.

- chwaraeodd tîm digidol y Cyngor swyddogaeth allweddol yn ystod y pandemig gan gefnogi gwasanaethau, preswylwyr a staff. Roedd hyn yn cynnwys datblygu prosesau digidol i gefnogi'r gwaith o ddarparu grantiau busnes a thaliadau hunanynysu. Gwnaeth y tîm ddarparu offer TG i ddisgyblion a chartrefi gofal a oedd wedi eu heithrio'n ddigidol hefyd, a chefnogi'r canolfannau brechu torfol.
- mae cefnogaeth ac egni corfforaethol ar gyfer agenda ddigidol y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn ei dîm digidol a'i gefnogaeth. Mae wedi sefydlu canolfan data newydd ac mae'r tîm digidol wedi bod yn gweithio'n rhagweithiol gyda gwasanaethau er mwyn archwilio atebion digidol. Mae'r Cyngor hefyd wedi edrych ar sut mae sefydliadau eraill yn gwneud hyn, er mwyn dysgu oddi wrth arferion mewn lleoedd eraill.
- ystyriodd y Pwyllgor Craffu ar Gyllid a Pherfformiad y Cyngor y strategaeth digidol drafft cyn y cytunwyd arni. Ystyriodd y Pwyllgor hwn gynnydd y Cyngor yn y gorffennol hefyd, wrth iddo weithredu ei strategaeth digidol blaenorol.
- yn ystod ein gwaith, roedd y Cyngor yn datblygu ei drefniadau llywodraethu i gefnogi datblygiad y strategaeth ddigidol a'r broses o'i rhoi ar waith, gan gynnwys:
  i. cwblhau ei raglen waith digido, er mwyn cyflawni ei Strategaeth ddigidol.
  ii. cynllunio i sefydlu Bwrdd Cyflawni Digidol Strategol i oruchwylio'r modd y caiff y strategaeth ei chyflwyno.
  iii. datblygu methodoleg prosiect ar gyfer asesu a chyflawni sy'n defnyddio'r pum ffordd o weithio[3] er mwyn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei rhaglen ddigideiddio. Byddwn yn awyddus i weld cynnydd y Cyngor gyda hyn, a'i effaith.
  iv. mae gan y Cyngor brosiect sicrwydd seiber sy'n tanategu ei agweddau diogelwch. Mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried canfyddiadau ein hadroddiadau Seiber a Defnyddio Data yn ei waith.
- mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar gyfer penderfynu sut y bydd yn cyflawni ei strategaeth Ddigidol. Ar adeg ein gwaith, doedd y Cyngor ddim wedi penderfynu ar yr adnoddau yr oedd eu hangen arno i weithredu ei strategaeth. Mae'n bwriadu datblygu cynlluniau cyflawni gan gynnwys cysylltiadau clir â chyllid y rhaglen ddigido yn ystod cyfnod y strategaeth. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn fforddiadwy a'i bod yn cael ei chyflawni ar y cyflymder a fwriadwyd. Pwysleisia cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a ddiweddarwyd ym Medi 2022 y bydd ei strategaeth

ddigidol yn allweddol i'w helpu i fynd i'r afael â'i fwlch yn y gyllideb ac i gynnal cadernid ei wasanaethau.

- cydnabu'r Cyngor y bydd cyflawni ei uchelgais digidol yn gofyn am ddull mwy integredig. Gwnaethom gyflwyno adroddiadau i'r Cyngor yn ddiweddar yn dilyn ein gwaith ar drefniadau cynllunio gweithlu a rheoli asedau y Cyngor. Yn y rhain, pwysleisiwyd yr angen am waith cynllunio sy'n fwy integredig.

37 Yn ystod ein gwaith, gwnaethom herio'r Cyngor yn enwedig i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llawnach wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi bod ar waith ers dros saith mlynedd bellach. Felly, byddem yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos yn awr sut mae'r Ddeddf yn siapio yr hyn maent yn ei wneud. Roedd rhai o'r meysydd y gwnaethom eu trafod â'r Cyngor yn ystod ein gwaith yn cynnwys:

- mwy o gysondeb â'r agenda Digidol yng Nghymru a'r safonau digidol a ddatblygir gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.
- penderfynu sut y bydd y strategaeth ddigidol yn helpu i gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant y Cyngor.
- cyfleoedd i weithio yn gydweithredol
  - deall sut y datblygwyd gweledigaeth ddigidol y Cyngor. Er enghraifft, pwy oedd yn ymwneud â hyn, sut y cafodd ei siapio gan anghenion a safbwyntiau y defnyddwyr gwasanaeth.
  - sut yr oedd yn mynd i weithio gyda grwpiau i leihau'r risg o allgáu'n ddigidol.
  - archwilio tueddiadau'r dyfodol.
  - datblygu'r diwylliant i gefnogi'r broses o weithredu ei strategaeth.
  - datblygu mesurau i helpu i fonitro'r cynnydd.
  - adeiladu ar yr hyn a ddysgir mewn mannau eraill.
- ymatebodd swyddogion yn adeiladol i'n heriau yn ystod ein gwaith. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau'r modd y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei strategaeth.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.